OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1408 (Cy.145)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *30 Mai 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *2 Mehefin 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Awst 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 105(4) a (5) a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 1 Awst 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dirymu

**2.** Dirymir Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2000(**3**).

### Ystyr iaith dramor fodern

**3.** At ddibenion adran 105 o Ddeddf Addysg 2002 ystyr “iaith dramor fodern” yw unrhyw iaith dramor fodern.

### Penderfyniad gan Weinidogion Cymru

**4.**—(1) Mae unrhyw gwestiwn ynghylch a yw iaith dramor benodol yn iaith dramor fodern at ddibenion adran 105 o Ddeddf Addysg 2002 i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru.

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 2000/1980 (Cy.141).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud dyfarniad o dan baragraff (1) yn sgil cais gan unrhyw berson neu o'u hysgogiad eu hunain.

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

30 Mai 2008

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae “iaith dramor fodern” yn bwnc sylfaen yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru yn y trydydd cyfnod allweddol. Mae'n ofynnol i'r ieithoedd hynny sydd i'w cyfrif yn ieithoedd modern at ddibenion y Cwricwlwm Cenedlaethol gael eu pennu mewn Gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru, neu, fel arall, caiff Gorchymyn o'r fath ddarparu bod unrhyw iaith dramor fodern yn iaith dramor fodern at y cyfryw ddibenion. Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod unrhyw iaith dramor fodern yn iaith dramor fodern, a bod unrhyw gwestiwn ynghylch a yw iaith dramor yn iaith dramor fodern i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru.